GWEITHLU MEDRUS AR GYFER DYFODOL PROFFIDIOL – GWNEWCH YN SIWR EICH BOD YN BAROD

Summit SKILLS

SGILIAU GWYRDD AM DDYFODOL GWYRDD
PEIRIANNEG GWASANAETHAU ADEILADU

GWEITHLU MEDRUS AR GYFER DYFODOL PROFFIDIOL – GWNEWCH YN SIWR EICH BOD YN BAROD

CYNNWYS

- MAE'R DYFODOL CARBON ISEL YN DOD
- MAE EICH BUSNES YN RHAN O'R ATEB
- PA DECHNOLEGAU AMGYLCHEDDOL MAE BSE YN EU CWMPASU?
- CÂNT EU HYCHWANEGU AT SGILIAU PRESENNOL, YN HYTRACH NA'U CYFLAWNI'N ANNIBYNNOL
- SUMMITSKILLS – YN DATBLYGU SGILIAU CARBON ISEL I SERO
- NI ELLIR ANWYBYDDU'R CYFLEOEDD
- YR HYN Y MAE ANGEN I CHI EI WNEUD NESAF: DECHREUWCH HYFFORDDI NAWR

MAE'R DYFODOL CARBON ISEL YN DOD

Mae gan y sector gwasanaethau peirianneg adeiladu (BSE) rôl fawr i'w chwarae wrth gwrdd â'r targedau lleihau carbon a osodwyd gan y Llywodraeth. Ni ellir cyflawni lleihau allyriadau, gostwng y defnydd o ynni a chadw dŵr oni bai bod y sector hwn yn dylunio, yn gosod ac yn cynnal a chadw technolegau adnewyddadwy ac amgylcheddol, ac yn darparu'r cyngor gorau i gwsmeriaid.

Mae her fawr yn disgwyl cyflogwyr i gael y sgiliau cywir yn eu lle i addasu ac ymateb i ddyluniadau systemau ac arferion gweithio newydd.

Mae dwy fenter fawr yn benodol yn cyflwyno angen mawr am bersonél medrus, a chyfle mwy fyth ar gyfer elw busnesau. Bydd tariffau bwydo i mewn, i'w cyflwyno ym mis Ebrill 2010, yn gweld perchnogion tai a pherchnogion eraill yn cael eu talu am gynhyrchu trydan carbon isel ar raddfa fach. At hynny, bydd y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy, ar y gweill ar gyfer Gwanwyn 2011, yn darparu cymorth i gynhyrchwyr gwres adnewyddadwy.

MAE EICH BUSNES YN RHAN O'R ATEB

Mae'r cynlluniau hyn, ynghyd â newidiadau yn y dyfodol i reoliadau adeiladu a'r targedau sero carbon i gartrefi newydd, yn golygu bydd rhaid i'ch busnes brofi fod ganddo'r tîm cywir ar gyfer y gwaith er mwyn ennill cytundebau newydd.

I'r rheiny sy'n barod, mae'r enillion masnachol posib yn anferth. Hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae busnesau sydd wedi uwchsgilio eu staff i weithio mewn technolegau amgylcheddol eisoes wedi gweld twf sylweddol.

Llun trwy garedigrwydd Bourne BG Ltd

PA DECHNOLEGAU AMGYLCHEDDOL MAE BSE YN EU CWMPASU?

Mae manylebau, dylunio, gosod, comisiynu, atgyweirio a chynnal a chadw'r systemau technoleg amgylcheddol a restrir isod oll yn dod o fewn ôl troed SummitSkills a BSE. Maent yn cwmpasu technoleg adnewyddadwy, carbon isel a sero carbon ac fe'u dyluniwyd i leiafu gwastraffu ynni, cynorthwyo gyda chadw dŵr a helpu i leihau tlodi tanwydd ac adnoddau:

- biodanwyddau (biomàs, bio hylif)
- gwres a phŵer cyfunol
- pympiau gwres
- awyru adfer gwres mecanyddol
- systemau cynhyrchu hydro meicro
- ynni gwynt meicro
- ffotofolteddau solar (PV)
- gwresogi dŵr solar
- cywain ac ailgylchu dŵr

CÂNT EU HYCHWANEGU AT SGILIAU PRESENNOL, YN HYTRACH NA'U CYFLAWNI'N ANNIBYNNOL

Mae'n bwysig sylweddoli bod yr holl dechnolegau amgylcheddol yn y sector yn estyniad o setiau sgiliau a swyddogaethau swyddi presennol; nid rolau ar wahân ydynt. Bydd eich gweithwyr presennol, ar yr amod fod ganddynt y lefel gywir o gymhwysedd (fel NVQ neu SVQ) yn uwchsgilio drwy hyfforddiant ychwanegol i gynnwys technolegau amgylcheddol yn eu cylch gwaith presennol.

Llun trwy garedigrwydd Viridian Solar

SUMMITSKILLS – YN DATBLYGU SGILIAU CARBON ISEL I SERO

Fel y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau, rôl SummitSkills yw sicrhau bod hyfforddiant at y diben, achrededig a phriodol yn cael ei ddatblygu.

Yn benodol ar gyfer technolegau amgylcheddol, rydym wedi rhoi nifer o fesurau yn eu lle fel bod gan gyflogwyr yn y sector ganllawiau clir ar sut y dylai staff fod yn fedrus yn y maes hwn:

- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol - y rhain yw sylfeini cymwysterau. Maent yn pennu'r cymwyseddau craidd y dylai unigolion eu cael ar gyfer pob galwedigaeth. Mae SummitSkills wedi datblygu safonau ar gyfer technolegau amgylcheddol y mae cymwysterau bellach yn cael eu seilio arnynt.

- Datblygu cymwysterau - gan ddefnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel sylfaen, rydym nawr yn gweithio gyda chyrff dyfarnu, cyrff ardystio a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu cymwysterau sy'n gweddu i'r safonau hynny, a hynny i weithwyr presennol a phrentisiaid.

- Cyrsiau byr ymwybyddiaeth technolegau amgylcheddol - i alluogi cyflogwyr i asesu'r potensial ar gyfer datblygu eu busnes a nodi anghenion hyfforddiant cyflogeion.

Llun trwy garedigrwydd Nu-Heat Ltd

NI ELLIR ANWYBYDDU'R CYFLEOEDD

Drwy ystyried pa sgiliau sydd gennych yn eich busnes, lle y gallech esblygu a chymryd camau i baratoi, gallech ennill mantais sylweddol dros eich cystadleuwyr wrth i fwy a mwy o brosiectau bennu'r angen am dechnolegau amgylcheddol.

Yn rhai rhannau o'r DU mae busnesau annigonol eisoes i gwrdd â'r galw am y mathau hyn o brosiectau, ac mae cleientiaid yn edrych i fannau eraill, yn cynnwys dramor, at gwmnïau sydd â'r sgiliau yn eu lle eisoes.

Hyd yn oed ar lefel ddomestig, mae angen i berchnogion tai fod yn ymwybodol o sut i wneud eu cartrefi yn fwy effeithlon, nid yn unig drwy fwyafu eu hoffer presennol ond hefyd drwy'r technolegau newydd sydd ar gael iddynt. Os oes gan eich busnes y sgiliau a'r wybodaeth yn y maes hwn, gallwch aros ar y blaen.

Llun trwy garedigrwydd Viridian Solar

YR HYN Y MAE ANGEN I CHI EI WNEUD NESAF: DECHREUWCH HYFFORDDI NAWR

Ni fu erioed amser gwell i symud i mewn i'r farchnad hon sy'n tyfu. Gyda staff medrus yn eich arbenigeddau diwydiant craidd, bydd gennych y sgiliau craidd yn eu lle eisoes, dim ond mater ydyw o hyfforddiant ychwanegol.

Gwnewch yn siŵr fod gennych yr wybodaeth gywir wrth i chi symud ymlaen:

- Gall cyrsiau ymwybyddiaeth amgylcheddol byr eich helpu yn y dechrau i ddeall y ffactorau pwysig i'w hystyried, dysgu mwy am dechnolegau newydd a gwneud y penderfyniadau busnes cywir.

- Meddyliwch am y sgiliau sydd gennych ar hyn o bryd yn eich busnes a'r cyfleoedd sydd ar gael:
  - pa dechnolegau sy'n cael eu nodi yn eich rhanbarth, neu'n debygol o gael eu nodi?
  - pa aelodau o'ch tîm sydd yn y sefyllfa orau i uwchsgilio yn y meysydd hyn?

- Gwnewch gais i gynllun ardystio priodol, er enghraifft MCS neu gyfwerth. Ewch i www.microgenerationcertification.org am fwy o wybodaeth.

- Dewch o hyd i'r hyfforddiant sy'n cwrdd â'ch anghenion a'r darparwyr sy'n gallu eich helpu.

Llun trwy garedigrwydd Kingspan Renewables

GWNEWCH YN SIWR EICH BOD YN BAROD AM Y CHWYLDRO CARBON ISEL I SERO.

PARATOWCH HEDDIW AR GYFER LLWYDDIANT BUSNES YFORY.

Summit SKILLS

Vega House, Opal Drive
Fox Milne, Milton Keynes
MK15 0DF

01908 303960
www.summitskills.org.uk

recycle ailgylchu
Please recycle this publication
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma

100% wedi'i ailgylchu
Argraffwyd ar bapur mae 100% ohono wedi'i ailgylchu